age Cymru

Creu Cymru oed gyfeillgar

# Canfyddiadau allweddol y Gyfrifiannell Gymunedol

*Mawrth 2020*



# Cynnwys

| | *Tudalen* |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | 1 |
| **Cyflwyniad** | 4 |
| **Dulliau arolygu** | 5 |
| **Canlyniadau** | |
| • Gwasanaethau lleol | 6 |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus | 7 |
| • Eisteddleoedd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys | 8 |
| • Toiledau cyhoeddus | 9 |
| • Palmentydd | 10 |
| • Diogelwch cymdogaeth | 11 |
| • Llefydd i gyfarfod | 12 |
| • Gwybodaeth a chyngor | 13 |
| • Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol | 14 |
| • Eich llais | 15 |
| **Trafodaeth a galwadau am weithredu** | 16 |
| **Cymhariaeth o'r canlyniadau ag arolwg Cyfrifiannell Gymunedol Age Cymru yn 2010** | 22 |
| **Casgliadau** | 23 |
| **Atodiadau** | |
| • Atodiad 1: Tabl sgorau cyfartalog pob awdurdod lleol | 24 |
| • Atodiad 2: Holiadur y Gyfrifiannell Gymunedol | 26 |

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau Cyfrifiannell Gymunedol Age Cymru 2018/2019, a alluogodd pobl hŷn yng Nghymru i asesu pa mor oed gyfeillgar yw eu cymunedau. Mae cymuned oed gyfeillgar yn addas ac yn grymuso pobl o bob oedran, ac yn cynnwys cyfleusterau sy'n helpu pobl i fwynhau iechyd, lles ac ansawdd bywyd.

Galluogodd y Gyfrifiannell Gymunedol, sy'n seiliedig ar ein fersiwn wreiddiol o 2010,[1] i ymatebwyr yr arolwg roi sgôr (allan o 10) i bob un o'r deg elfen gymunedol allweddol sy'n galluogi pobl hŷn i barhau i fod yn egnïol a mwynhau ansawdd bywyd da. Po uchaf yw'r sgôr, yr agosaf yw'r gymuned at fod yn addas ar gyfer pobl o bob oedran; yr isaf yw'r sgôr, y mwyaf o waith sydd ei angen i'w wneud yn gymuned sy'n oed gyfeillgar. Dosbarthwyd yr arolwg i bobl hŷn ledled Cymru rhwng mis Awst 2018 a mis Mawrth 2019, a chawsom dros 1,000 o ymatebion.

Mae canlyniadau a gasglwyd o'r Gyfrifiannell Gymunedol yn cyflwyno trosolwg o gryfderau a gwendidau cymunedau ledled Cymru wrth edrych arnynt trwy lygaid pobl hŷn. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r sgorau cyfartalog yng Nghymru (allan o 10) ar draws yr holl awdurdodau lleol ar gyfer pob elfen o gymuned sy'n oed gyfeillgar. Mae'r sgorau cyfartalog ar gyfer pob awdurdod lleol ar draws pob un o'r deg elfen wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

| ***Elfen cymuned oed gyfeillgar*** | ***Sgôr gyfartalog yng Nghymru*** (allan o 10) |
|---|---|
| **Toiledau cyhoeddus** | **3.30** |
| **Eich llais** | **4.54** |
| **Palmentydd** | **4.60** |
| **Eisteddleoedd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys** | **5.52** |
| **Diogelwch cymdogaeth** | **5.84** |
| **Gwybodaeth a chyngor** | **6.20** |
| **Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol** | **6.53** |
| **Llefydd i gyfarfod** | **6.55** |
| **Trafnidiaeth gyhoeddus** | **6.62** |
| **Gwasanaethau lleol** | **6.88** |

[1] Age Cymru (2010) Tua'r Tir Cyffredin: Canfyddiadau allweddol y Gyfrifiannell Gymunedol™.

- Nodwyd toiledau cyhoeddus fel elfen waethaf cymunedau lleol, gyda dros hanner yr ymatebwyr yn rhoi sgôr o dri neu lai allan o 10 i'w cymuned. Roedd diffyg toiledau cyhoeddus yn ffactor allweddol. Yn ogystal, nodwyd pryderon am lendid a hygyrchedd cyfleusterau ac oriau agor cyfyngedig.
- Dywedodd pobl hŷn wrthym na chlywir eu lleisiau'n lleol, gyda thros draean o ymatebwyr yn rhoi sgôr o dri neu lai allan o 10 i'w cymuned. Roedd rhai pobl hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o ymgynghoriadau ar-lein nad oeddent yn gallu cael mynediad atynt. Yn ôl rhai ymatebwyr, mae fforymau yn helpu i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed.
- Rhoddodd dros draean o'r ymatebwyr sgôr o dri neu lai i'r palmentydd yn eu cymuned. Ystyriwyd bod palmentydd anwastad a phalmentydd brics sy'n llithrig pan maent yn wlyb yn beryglus. Mae palmentydd sydd wedi'u rhwystro gan geir wedi'u parcio, biniau a dodrefn stryd yn cyfyngu ar fynediad cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd. Tynnwyd sylw hefyd at broblemau gyda baw cŵn ac ysbwriel.
- Rhoddodd 22.9% o ymatebwyr sgôr o dri neu lai i eisteddfeydd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys, tra bod diffyg eisteddleoedd i'r cyhoedd yn fater allweddol.
- Nododd nifer o bobl hŷn nad ydynt yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Nodwyd pryderon am ddiffyg presenoldeb yr heddlu ac am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Yn ogystal, nodwyd cerbydau sy'n gyrru'n rhy gyflym, diffyg mannau diogel i groesi'r ffordd a golau stryd gwael.
- Nodwyd y dulliau cyflwyno gwerthfawr canlynol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor: cylchlythyrau, fforymau, llyfrgelloedd, lleoliadau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol. Nododd rhai pobl hŷn bryderon ynghylch peidio â gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth, a methu â dod o hyd i wybodaeth ar-lein.
- Mater allweddol a godwyd o ran gwasanaethau iechyd a chymdeithasol oedd yr her o wneud apwyntiadau gyda meddygon teulu a chael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Nodwyd pryderon am ansawdd rhai gwasanaethau cymdeithasol, a bod angen mwy o gefnogaeth ar ofalwyr.
- Dywedodd pobl hŷn wrthym am bwysigrwydd grwpiau gwirfoddol a chymunedol wrth hwyluso gweithgareddau cymunedol. Mewn sawl ardal, fodd bynnag, mae mannau i gwrdd a chymdeithasu mewn perygl cynyddol ac mae llawer eisoes wedi cau.
- Nodwyd y pryderon allweddol canlynol ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus: problemau cysylltiedig â hygyrchedd corfforol i drafnidiaeth gyhoeddus, toriadau i wasanaethau bysiau a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, nodwyd problemau ynghylch amlder a dibynadwyedd gwasanaethau bysiau a diffyg bysiau a chludiant cymunedol gyda'r nos.
- Rhoddodd 63.4% o ymatebwyr sgôr o saith neu fwy allan o ddeg i wasanaethau cyhoeddus yn eu cymuned. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn eu bod yn byw mewn ardaloedd sydd wedi'u gwasanaethu'n dda a chymunedau ffyniannus, gyda mynediad da i wasanaethau allweddol. Fodd bynnag, roedd nifer yn pryderu am ddiffyg mynediad at arian (banciau a swyddfeydd post yn diflannu), ynghyd â meddygfeydd, llyfrgelloedd a siopau'n cau.

Pwysleisiodd ymatebwyr i'r Gyfrifiannell Gymunedol gryfderau a gwendidau cymunedau ledled Cymru, sy'n darparu darlun o statws presennol cymunedau yng Nghymru a pha mor barod yw ardaloedd i ymateb i newidiadau demograffeg presennol ac yn y dyfodol.

Mae canfyddiadau'r Gyfrifiannell Gymunedol yn awgrymu bod angen gweithredu gwelliannau mewn cymunedau ledled Cymru o ran dylunio cymunedol a darparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl o bob oed.

Cymharwyd canlyniadau arolwg y Gyfrifiannell Gymunedol gyfredol â chanlyniadau arolwg Cyfrifiannell Gymunedol Age Cymru 2010. Nid oes llawer wedi newid: mae toiledau cyhoeddus, eich llais, palmentydd ac eisteddleoedd i'r cyhoedd / llefydd i gael gorffwys yn parhau i fod ar waelod y rhestr o elfennau sy'n perfformio waethaf mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at doriadau cyllid awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus, a gwelliannau mewn darpariaeth i bobl hŷn, gan gynnwys cynlluniau Heneiddio'n Dda awdurdodau lleol.

**'Fel person hŷn, rwy'n pryderu ynghylch y materion sy'n atal neu'n cyfyngu ar lawer o bobl hŷn rhag cymryd rhan yn y gymuned. Mae gwasanaethau trafnidiaeth heb eu cydgysylltu, mynediad cyfyngedig iawn i doiledau cyhoeddus, ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglon i bobl â phroblemau symudedd yn ychwanegu at y nifer sy'n teimlo'n ynysig ac yn unig'**

(ymatebydd Cyfrifiannell Gymunedol)

# Cyflwyniad

Mae gallu cymryd rhan ym mywyd y gymuned, gyda mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau lleol, yn achubiaeth i lawer o bobl hŷn. Mae gan gymuned sy'n gyfeillgar i oed y gallu i gefnogi pobl hŷn i fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl. Mae'n cynnwys cyfleusterau, gwasanaethau ac amwynderau sy'n hygyrch ac sy'n diwallu anghenion pobl hŷn, i'w helpu nhw i fwynhau iechyd a lles a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Fodd bynnag, mae nifer o bobl hŷn yn wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan ym mywyd y gymuned. Gall cymdogaethau sydd wedi'u cynllunio'n wael, amgylchedd adeiledig anhygyrch a diffyg gwasanaethau eithrio pobl hŷn o'u cymunedau, gan droi cyfnod bywyd a ddylai fod yn llawn mwynhad yn amser unig ac ynysig. Os na all pobl hŷn fynd allan yn lleol, maen nhw mewn perygl o weld eu hiechyd yn gwaethygu, ynghyd â'u hansawdd bywyd cyffredinol.

Ym mis Awst 2018, lansiodd Age Cymru'r arolwg Gyfrifiannell Gymunedol (wedi'i seilio ar fersiwn wreiddiol 2010[1]) a roddodd gyfle i bobl hŷn asesu pa mor oed gyfeillgar yw eu cymunedau. Gallai ymatebwyr yr arolwg roi sgôr i bob un o ddeg nodwedd yn eu cymuned sy'n eu galluogi nhw i aros yn egnïol a mwynhau ansawdd bywyd da.

## Nod y Gyfrifiannell Gymunedol yw:

- gwerthuso pob un o'r deg elfen mewn cymunedau ledled Cymru
- rhoi sylw i'r materion a godwyd gan bobl hŷn
- tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da
- cynyddu ymwybyddiaeth o nodweddion cymunedau oed gyfeillgar ledled Cymru.

Mae'r canlyniadau a'r sylwadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn fynegiadau uniongyrchol o brofiadau pobl hŷn ledled Cymru.

[1] Age Cymru (2010) Tua'r Tir Cyffredin: Canfyddiadau allweddol y Gyfrifiannell Gymunedol™.

# Dulliau arolygu

Lansiwyd yr arolwg Cyfrifiannell Gymunedol ar stondin Age Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst 2018. Yna dosbarthwyd yr arolwg, a oedd ar gael mewn fformatau papur ac electronig, i rwydweithiau pobl hŷn ledled Cymru rhwng mis Awst 2018 a mis Mawrth 2019. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolwg ar gyfryngau cymdeithasol, ac fe'i hanfonwyd at awdurdodau lleol a phartneriaeth Cynghrair Henoed Cymru i'w rannu â'u rhwydweithiau o bobl hŷn. Er bod y Gyfrifiannell Gymunedol wedi'i thargedu at bobl hŷn fel y brif gynulleidfa, roedd croeso i bobl o bob oed gymryd rhan.

Gofynnwyd i ymatebwyr roi sgôr allan o 10 i bob un o'r 10 elfen yn eu cymunedau. Yn ogystal, cafodd ymatebwyr gyfle i ychwanegu eu sylwadau eu hunain am unrhyw un o'r elfennau yn eu cymunedau.

## Y 10 ffactor allweddol a fesurwyd gan y Gyfrifiannell Gymunedol oedd:

1. Gwasanaethau lleol
2. Trafnidiaeth gyhoeddus
3. Eisteddleoedd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys
4. Toiledau cyhoeddus
5. Palmentydd
6. Diogelwch cymdogaeth
7. Llefydd i gyfarfod
8. Gwybodaeth a chyngor
9. Gwasanaethau iechyd a chyhoeddus
10. Eich llais.


Mae copi o'r holiadur Cyfrifiannell Gymunedol wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Cyflwynir yr holl sylwadau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn fel y'u hysgrifennwyd gan ymatebwyr y Gyfrifiannell Gymunedol, ac fe'u cyfieithwyd i'r Saesneg neu'r Gymraeg, fel sy'n briodol.

Yn y cyfrifon canlynol, ni chaiff sgorau ar gyfer awdurdodau lleol sydd â chyfraddau ymateb isel (sef llai na 15 ymatebydd i bob awdurdod - gweler Atodiad 1) eu nodi fel y sgorau awdurdod lleol isaf neu uchaf ar gyfer unrhyw elfen.

# Gwasanaethau lleol

**Pa mor hawdd yw cael mynediad at gyfleusterau neu wasanaethau lleol, e.e. siopau, swyddfa'r post, banciau a llyfrgelloedd o fewn pellter rhesymol i'ch cartref?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 6.88
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 5.48
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 7.90
- Rhoddodd 63.4% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 12.2% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Rydw i'n byw mewn ardal sydd â gwasanaethau da (Caerdydd)
- Yn benodol, mae'r gwasanaethau llyfrgell yn hanfodol fel ffynhonnell gwybodaeth a chymorth gyda chyfathrebu dros y rhyngrwyd (Castell-nedd Port Talbot)
- Fel nifer o ardaloedd, does dim banc o fewn chwe milltir. Llyfrgell, neuadd y pentref a chyngor lleol gweithredol da (Pen-y-bont ar Ogwr)
- Mae Treorci yn ffynnu ac yn cynnwys ardal siopa a chaffis da, ond mae llawer gormod o draffig (Rhondda Cynon Taf)
- Mae colli'r unig fanc yn achosi problemau i bobl hŷn (Blaenau Gwent)
- Mae llawer o wasanaethau wedi cael eu torri oherwydd diffyg cyllid (Wrecsam)
- Mae gwasanaethau fel gofal iechyd, banciau ac ysgolion yn cael eu tynnu allan o ardaloedd gwledig ac ar yr un pryd mae trafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau (Conwy)

## Materion allweddol a godwyd

- Enghreifftiau o ardaloedd gyda gwasanaethau da, gan gynnwys llyfrgelloedd, siopau a chyfleusterau cymunedol
- Colli banciau, swyddfeydd post, meddygfeydd, llyfrgelloedd a siopau
- Toriadau i wasanaethau bws - angen trafnidiaeth bersonol i gael mynediad at wasanaethau. Diffyg mannau parcio, gan gynnwys mannau parcio bathodynnau glas, mewn cymunedau rhai ardaloedd
- Problemau yn cael mynediad at wasanaethau hanfodol mewn ardaloedd gwledig.

# Trafnidiaeth gyhoeddus

**Pa mor dda yw trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol yn eich ardal?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 6.62
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 5.33
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 7.92
- Rhoddodd 58.9% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 14.9% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Mae'r bws yn debyg i glwb symudol gan fod cymaint o bobl yn adnabod ei gilydd (Caerdydd)
- Mae'r arhosfan bws agosaf oddeutu milltir i ffwrdd, sy'n iawn ar y ffordd i'r dref, ond yn heriol pan fyddwch yn dychwelyd yn cario llawer o fagiau siopa (Powys)
- Byddwn wrth fy modd yn ymuno mewn â gweithgareddau a byddwn yn aelod defnyddiol ond ni allaf gyrraedd lleoedd gan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn rhwydd ac mae gennyf symudedd cyfyngedig (Sir Gaerfyrddin)
- Os nad ydych yn gallu cerdded yn bell – rhy ddrwg. Os nad oes gennych gar – rhy ddrwg (Merthyr Tudful)
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem go iawn i'r rheiny sydd heb geir (Gwynedd)
- Er bod yr ardal leol yn dda, mae cael mynediad i ardaloedd eraill yn gynyddol heriol oherwydd diffyg trafnidiaeth ac anawsterau yn cael mynediad at lwyfannau yn yr orsaf (Castell-nedd Port Talbot)
- Mae diffyg trafnidiaeth gymunedol gyda'r nos yn ynysu pobl (Blaenau Gwent)
- Byddai'n ddefnyddiol petai bws i'r ysbyty'n cael ei ddarparu unwaith y dydd (Ynys Môn)

## Materion allweddol a godwyd

- Problemau â hygyrchedd corfforol at drafnidiaeth gyhoeddus
- Toriadau i wasanaethau bws. Diffyg amlder a dibynadwyedd gwasanaethau bws, a diffyg gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol gyda'r nos
- Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Yr angen am lwybrau bws mwy uniongyrchol at wasanaethau iechyd.

# Eisteddleoedd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys

**Pa mor dda yw argaeledd ac ansawdd eisteddleoedd i'r cyhoedd yn eich cymuned, yn arbennig y brif ganolfan, gorsafoedd bws a pharciau?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 5.52
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 4.62
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 6.27
- Rhoddodd 39.5% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 22.9% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Does dim dodrefn stryd ar y brif stryd. Nid yw'r fainc ger mynedfa'r parc ar gael mwyach oherwydd bod ffens wedi'i chodi o'i hamgylch, sy'n golygu nad yw'n bosibl i'r gymuned ei defnyddio (Rhondda Cynon Taf)
- Mae bws rhif 66 yn rhedeg ar ôl 9:30am, bob awr. Mae'n hwyr trwy'r amser (a does dim sedd i eistedd arni wrth aros am y bws) (Caerdydd)
- Does dim toiledau / seddi / mannau i gwrdd / swyddfa bost o fewn taith gerdded (Castell-nedd Port Talbot)
- Nid oes digon o seddi ar gael yn y siopau (Conwy)
- Mae'r rhan fwyaf o'r seddi yn Nant y Pandy wedi cael eu fandaleiddio (Ynys Môn)

## Materion allweddol a godwyd

- Diffyg eisteddleoedd cyffredinol i'r cyhoedd mewn cymunedau, gan gynnwys parciau, arosfeydd bws a siopau.

# Toiledau cyhoeddus

**Pa mor dda yw'r mynediad at doiledau cyhoeddus yn eich ardal leol?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 3.30
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 1.33
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 5.26
- Rhoddodd 17.9% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 55.9% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Does dim toiledau cyhoeddus (Caerdydd)
- Mynediad cyfyngedig iawn at doiledau cyhoeddus (Abertawe)
- Dim toiledau cyhoeddus ym Mharc Acton nac yn ardal Acton (Wrecsam)
- Mae diffyg toiledau cyhoeddus yn gwthio pobl allan o ganol trefi i barciau manwerthu sy'n cynnwys yr holl gyfleusterau angenrheidiol (Sir y Fflint)
- Mae'r cyfleusterau toiledau yn wael iawn (Conwy)
- Mae angen gwirioneddol am doiledau cyhoeddus yn y brif orsaf fysiau (Merthyr Tudful)
- Mae angen cadw'r toiledau yn lanach i bawb, ymwelwyr ac ati (Gwynedd)
- Diffyg toiledau cyhoeddus ym Mhontypridd, dim ar agor ar ôl 5:00pm (Rhondda Cynon Taf)
- Mwy o doiledau ac arwyddion (Ynys Môn)

## Materion allweddol a godwyd

- Diffyg cyfleusterau toiledau
- Problemau o ran hygyrchedd a glendid
- Oriau agor cyfyngedig, diffyg arwyddion mewn rhai ardaloedd.

# Palmentydd

**Pa mor dda yw cyflwr y palmentydd yn eich cymuned? A ydynt yn rhydd o dyllau a rhwystrau? A ydynt yn galluogi cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd symud yn rhydd?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 4.60
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 3.79
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 6.24
- Rhoddodd 24.1% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 34.2% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Mae palmentydd canol y dref yn beryglus ac nid ydynt yn wastad (Blaenau Gwent)
- Mae palmentydd bric yn llithrig iawn yn y gaeaf (Ynys Môn)
- Mae ceir sy'n parcio ar y palmant yn rhwystro llwybr pobl sy'n gwthio pram neu sy'n defnyddio cadair olwyn (Torfaen)
- Mae ceir yn rhwystro nifer fawr o balmentydd yn fy ardal, sy'n gwneud bywyd yn anodd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd (Abertawe)
- Rwy'n defnyddio ffrâm gerdded ac mae'n anodd i mi basio'r biniau sy'n aros i gael eu casglu ar y palmant (Blaenau Gwent)
- Mae ein stryd ni yn llawn ysbwriel a dodrefn ac nid oes gan y Cyngor bolisi i ddelio â'r mater hwn (Ceredigion)
- Nid yw perchnogion cŵn yn codi baw eu hanifeiliaid yn y parciau (Caerffili)
- Ysbwriel yn cael ei adael ar y stryd a baw ci ym mhob man (Rhondda Cynon Taf)

## Materion allweddol a godwyd

- Palmentydd o ansawdd gwael yn achosi risg a phryder o gwympo
- Ceir yn parcio ar balmentydd, gan rwystro cadeiriau olwyn, pramiau a sgwteri symudedd
- Biniau, dodrefn stryd a chloddiau yn achosi rhwystrau
- Materion cysylltiedig â glendid, baw ci ac ysbwriel yn benodol.

# Diogelwch cymdogaeth

**Pa mor ddiogel yw'r strydoedd yn eich cymuned (presenoldeb yr heddlu, darpariaeth golau a lefel y traffig)?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 5.84
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 4.46
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 7.29
- Rhoddodd 45.2% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 17.4% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Da yw gweld y bydd camerâu yn dod yn ôl i Aberystwyth (Ceredigion)
- Hoffwn weld mwy o heddlu yn ein hardal. Ble mae'r swyddogion cymorth oedd yn arfer bod yma? (Sir Fynwy)
- Dim presenoldeb heddlu cymunedol (Sir Ddinbych)
- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau treisgar wedi cynyddu yn yr ardal (Caerdydd)
- Traffig yn gyrru'n rhy gyflym, methu croesi'r ffordd (Conwy)
- Gormod o draffig ar y cylchfannau. Nid yw rhai pobl yn rhoi cyfle i chi groesi (Gwynedd)
- Nid yw'r tri golau stryd yn fy ardal leol wedi gweithio ers 18 mis, sy'n golygu ei bod yn gwbl dywyll yn y nos (Sir y Fflint)
- Rwyf ond yn teimlo'n ddiogel gyda'r nos oherwydd fy mod yn gallu gyrru. Tasai dim mynediad gennyf at gerbyd, ni fyddem yn gadael y tŷ (Merthyr Tudful)

## Materion allweddol a godwyd

- Diffyg presenoldeb heddlu mewn cymunedau
- Pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau
- Traffig yn gyrru'n rhy gyflym a diffyg cyfleusterau i groesi'r ffordd yn ddiogel
- Diffyg goleuadau stryd.

# Llefydd i gyfarfod

**Pa mor dda yw'r llefydd i gyfarfod, treulio amser, gwneud ymarfer corff a dysgu, megis parc, canolfan hamdden, canolfan gymunedol neu neuadd bentref?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 6.55
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 5.15
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 7.34
- Rhoddodd 57.9% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 12.5% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Mae gennym gymuned sy'n ffynnu a phobl yn defnyddio neuadd y pentref, y caeau chwarae a'r clwb ieuenctid i gynnal ystod o weithgareddau (Caerwent, Sir Fynwy)
- Mae Age Concern Torfaen a fforwm 50+ yn weithgar iawn yn yr ardal (Cwmbrân, Torfaen)
- Tai Chi Penarth, ardderchog 10/10 (Bro Morgannwg)
- Mae presenoldeb U3A wedi gwneud gwahaniaeth mawr i allu pobl hŷn i gymdeithasu yn y gymuned (Conwy)
- Mae gennym neuadd i bobl hŷn sydd angen ei thrwsio ac, os bydd rhaid cau'r neuadd, ni fydd gennym unrhyw beth yn y pentref (Rhondda Cynon Taf)
- Does dim byd yn yr ardal i bobl hŷn. Dim grwpiau ac ati. Rydym ni'n cael ein hanghofio (Sir Gaerfyrddin)
- Caewyd y ganolfan ddydd a thorrwyd y gwasanaethau a'u symud i adeilad llai o faint (Ceredigion)
- Dylai pobl hŷn gael gwybod am unrhyw wasanaethau cymorth sydd ar gael, er enghraifft canolfannau iechyd dydd (Gwynedd)
- Mae angen hyrwyddo digwyddiadau / clybiau / dosbarthiadau i bobl dros 50 oed yn well (Caerdydd)

## Materion allweddol a godwyd

- Pwysigrwydd grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n hwyluso gweithgareddau cymunedol
- Diffyg lleoedd a chyfleusterau i bobl hŷn gwrdd
- Angen hyrwyddo gweithgareddau yn well.

# Gwybodaeth a chyngor

**Pa mor hawdd yw cael mynediad at wybodaeth a chyngor yn eich cymuned, megis gan y cyngor, llyfrgell neu sefydliad gwirfoddol?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 6.20
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 5.24
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 7.09
- Rhoddodd 53.9% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 15.7% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Yn cael y rhan fwyaf o wybodaeth o fforymau neu weithiau gan reolwr y cynllun (Conwy)
- Maent yn garedig iawn yn y llyfrgell yn helpu gyda gwybodaeth (Ynys Môn)
- Mae gennym gynghorydd ardderchog sy'n rhoi'r holl wybodaeth i ni (Rhondda Cynon Taf)
- Diolch i Age Cymru am helpu perthynas gael budd-daliadau (Gwynedd)
- Dim hysbysfwrdd canolog ar gyfer gwybodaeth gymunedol (Bro Morgannwg)
- Ddim yn gwybod ble i fynd (Merthyr Tudful)
- Braidd dim gwybodaeth yn cyrraedd llawr gwlad (Sir y Fflint)

## Materion allweddol a godwyd

- Dulliau rhannu gwybodaeth a chyngor gwerthfawr, gan gynnwys cylchlythyrau, lleoliadau cymunedol, llyfrgelloedd, fforymau a sefydliadau gwirfoddol
- Pobl ddim yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth.

# Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol

**Pa mor dda yw'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn eich ardal chi?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 6.53
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 5.29
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 7.67
- Rhoddodd 58.6% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 10.1% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol


- Fel unigolyn 83 oed, cefais ofal da (Gwynedd)
- Yn fy marn i, mae gwasanaethau da yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes digon o wasanaethau iechyd a chymdeithasol yn yr ardal (Conwy)
- Mae fy meddyg yn wych, er bod angen gwella'r gwasanaethau cymdeithasol (Ynys Môn)
- Yn aml, rhaid aros tair wythnos am apwyntiad meddyg teulu (Rhondda Cynon Taf)
- Mae'n anodd iawn gwneud apwyntiad i weld fy meddyg teulu (Castell-nedd Port Talbot)
- Mae'n cymryd amser maith i gael apwyntiad meddyg teulu (Sir y Fflint)
- Mae'n anodd iawn cael mynediad at feddyg / gofal iechyd, ac mae pethau'n gwaethygu (Sir Gaerfyrddin)
- Mae wardiau ysbyty'n cau yn ogystal ag adran achosion brys yr ysbyty lleol (Sir Ddinbych)
- Does dim gwasanaethau GIG a gwasanaethau cymdeithasol integredig ym Machynlleth (Powys)
- Wedi gofalu am fy mam-yng-nghyfraith, sy'n 94 oed ac yn dioddef o glefyd Alzheimer. Roedd hi'n anodd cael unrhyw gymorth gan y Cyngor lleol a gwasanaethau lleol. Llwyddais i gael gofalwyr er mai cyfyngedig oedd y cymorth, dim grwpiau cymorth eraill, fy ngŵr a minnau oedd ei phrif ofalwyr (Casnewydd)

## Materion allweddol a godwyd

- Trafferthion yn cael apwyntiadau meddyg teulu a gwasanaethau gofal iechyd
- Angen mwy o gymorth ar ofalwyr
- Problemau yn gysylltiedig â rhai gwasanaethau cymdeithasol.

# Eich llais

**Pa mor dda yr ystyrir eich barn ym mhenderfyniadau a chynlluniau cymunedol?**




- Marc cyfartalog allan o 10 ledled Cymru: 4.54
- Sgôr isaf gan awdurdod lleol: 3.36
- Sgôr uchaf gan awdurdod lleol: 6.36
- Rhoddodd 27.2% o'r ymatebwyr radd o saith neu'n uwch i'w hardal
- Rhoddodd 34.0% o'r ymatebwyr radd o dri neu'n is i'w hardal

## Sylwadau dethol

- Gofynnir am ein safbwyntiau, ond anaml y gweithredir arnynt (Sir Fynwy)
- Rydym yn ceisio helpu ein hunain, nid yw'r Cyngor cymunedol yn ein hannog i fynychu cyfarfodydd ac nid yw'r cynghorwyr BYTH yn gofyn ein barn (Sir Gaerfyrddin)
- Mae nifer o bobl hŷn nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac, o ganlyniad, maen nhw'n fwy tebygol o gael eu heithrio, o fod yn llai ymwybodol ac o beidio â chael eu clywed (Caerdydd)
- Cynhelir cyfarfodydd ond nid oes gan nifer o bobl yn y pentref fynediad at y rhyngrwyd ac, o ganlyniad, does dim ffordd ganddynt o glywed am y pethau sy'n digwydd yn y pentref (Powys)
- Byddaf yn dod i'r Fforwm, lle mae pobl yn lleisio eu barn (Ynys Môn)
- Roedd cyfarfodydd Fforwm yn arfer cael eu cynnal (Sir Ddinbych)

## Materion allweddol a godwyd

- Problemau o ran cyfathrebu ac ymgysylltu ystyrlon rhwng awdurdodau lleol ac unigolion
- Yn aml, mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn defnyddio systemau cyfathrebu ar-lein a chyfryngau cymdeithasol, er nad yw nifer o bobl hŷn yn gallu cael mynediad atynt
- Yn ôl rhai ymatebwyr, mae fforymau pobl hŷn yn bwysig o ran lleisio'u safbwyntiau.

# Trafodaeth a galwadau am weithredu

Dylai Cymru anelu at fod yn genedl sy'n gyfeillgar i oed, lle mae gan bob person hŷn yr un parch, hawliau a mynediad at wasanaethau â gweddill y boblogaeth. Mae hyn yn hanfodol ar adeg pan mae nifer y bobl hŷn yn tyfu ac mae disgwyl i ni, ar gyfartaledd, fyw'n hirach.

Gall y nodweddion sy'n gwneud lle yn ddymunol i fyw ynddo newid wrth i bobl heneiddio. Mae'n hanfodol bod yr amgylchedd adeiledig o'n cwmpas wedi'i ddylunio ac yn addas ar gyfer pob oedran a bod gwasanaethau hanfodol yn hygyrch.

Mae canlyniadau'r Gyfrifiannell Gymunedol wedi rhoi cipolwg i ni o ba mor gyfeillgar i oed mae cymunedau ledled Cymru. Amlygwyd enghreifftiau o arfer da, ond hefyd y rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn a all eu hatal rhag cymryd rhan yn eu cymunedau, a'r effaith y gall dylunio gwael neu ddiffyg gwasanaethau ei gael ar fywydau pobl hŷn.

Mae'r galwadau canlynol am weithredu yn seiliedig ar brofiadau personol uniongyrchol pobl hŷn. Mae angen i'r newidiadau a nodwyd gennym fod yn gynaliadwy a rhaid i'r llywodraeth eu cefnogi ar bob lefel.

## Gwasanaethau lleol

Mae gallu cymryd rhan ym mywyd y gymuned, gyda mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau lleol, yn achubiaeth i lawer o bobl hŷn. Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad at arian, gofal iechyd a siopau bwyd o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

Rhoddodd 63.4% o ymatebwyr sgôr o 7 neu fwy i'r gwasanaethau lleol yn eu cymunedau, gan dynnu sylw at enghreifftiau o ardaloedd wedi'u gwasanaethu'n dda a chymunedau ffyniannus, mynediad da at wasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol.

Fodd bynnag, i eraill, roedd cael mynediad at arian yn bryder, yn enwedig o ran y banciau a'r swyddfeydd post sy'n cau, yn ogystal â meddygfeydd, llyfrgelloedd a siopau. Gwaethygir colli gwasanaethau lleol gan doriadau i wasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gan gynyddu'r angen i bobl ddefnyddio trafnidiaeth bersonol neu breifat i gael mynediad at wasanaethau. Nodwyd diffyg mannau parcio ceir, gan gynnwys parcio bathodyn glas, fel problem mewn cymunedau mewn rhai ardaloedd.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn hygyrch trwy drafnidiaeth gyhoeddus.

## *Trafnidiaeth gyhoeddus*

Mae trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol yn hanfodol bwysig o ran helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth a lles. Gall rhwydweithiau trafnidiaeth o'r fath sicrhau bod cymunedau wedi'u cysylltu'n dda a bod gwasanaethau, cyfleusterau ac amwynderau yn hygyrch i bobl hŷn. Heb y rhain, mae mwy o risg y bydd unigedd ac unigrwydd yn effeithio ar les pobl.

Roedd y materion a godwyd gan bobl hŷn ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys problemau gyda hygyrchedd corfforol i drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd pellteroedd cerdded i arosfannau bysiau yn rhwystr i bobl â symudedd cyfyngedig, a chodwyd absenoldeb cysgod a seddi mewn rhai arosfannau bysiau hefyd. Yn ogystal, nodwyd anawsterau mynediad mewn gorsafoedd rheilffordd. Roedd toriadau i wasanaethau bysiau a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn fater allweddol. Roedd pryderon hefyd ynghylch amlder a dibynadwyedd gwasanaethau bysiau, a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol gyda'r nos, a oedd yn rhwystr i bobl a oedd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- Lywodraeth Cymru i weithio ag awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth cymunedol a chyhoeddus i gefnogi rhwydwaith gynaliadwy, integredig a hygyrch ledled Cymru, i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu ymgysylltu â chymunedau a gwasanaethau
- awdurdodau lleol i ymgynghori â phobl hŷn parthed eu cynlluniau trafnidiaeth, ac o ran penderfyniadau am leoliad a chyrchfannau gwasanaethau bws
- Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth ar y cyd er mwyn helpu pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau iechyd hanfodol
- awdurdodau lleol i ddarparu eisteddleoedd, cysgod a gwybodaeth hygyrch mewn arosfannau bws.

## *Eisteddleoedd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys*

Heb eisteddleoedd a llefydd digonol i gael gorffwys, gall cael mynediad at ardaloedd a chyfleusterau cymunedol fod yn her sylweddol i bobl hŷn. I rai pobl hŷn, gall eisteddleoedd cyhoeddus fod y gwahaniaeth rhwng byw bywyd llawn a theimlo eu bod wedi'u heithrio ac yn ynysig. Mae eisteddleoedd cyhoeddus yn nodwedd hanfodol ar gyfer unrhyw ardal sy'n ceisio bod yn gyfeillgar i oed.

Rhoddodd 22.9% o ymatebwyr sgôr o dri neu lai i'r eisteddleoedd a llefydd i gael gorffwys yn eu cymunedau, a'r diffyg cyffredinol o ran eisteddleoedd i'r cyhoedd mewn cymunedau oedd y prif fater. Gall mynd i siopa, aros yn yr arhosfan bysiau neu fynd am dro yn y parc ddod yn amhosibl i bobl hŷn os nad oes unman i eistedd i lawr.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion pobl hŷn yn cael eu hystyried o ran darparu eisteddleoedd digonol mewn cymunedau, gan gynnwys canolfannau siopa, parciau, arosfannau bws a mannau cyhoeddus eraill
- awdurdodau lleol i sicrhau bod eisteddleoedd i'r cyhoedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac yn cael eu trwsio'n brydlon os cânt eu difrodi neu'u fandaleiddio.

## *Toiledau cyhoeddus*

Mae toiledau cyhoeddus yn hanfodol o ran gwneud cymunedau yn gyfeillgar i oed ac mae diffyg cyfleusterau yn gallu cael effaith negyddol ar bobl hŷn, gan eu hatal rhag cymryd rhan mewn cymunedau, a chynyddu unigedd ac unigrwydd. Mae darparu digon o doiledau cyhoeddus mewn cymunedau yn hanfodol o ran galluogi pobl hŷn i gynnal eu hurddas a chymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Canfuwyd mai toiledau cyhoeddus oedd yr elfen a sgoriodd waethaf mewn cymunedau lleol. Rhoddodd dros hanner yr ymatebwyr sgôr o dri neu lai i'w cymunedau. Y sgôr gyfartalog ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru oedd 3.30, gyda'r sgôr gyfartalog ar gyfer awdurdodau lleol yn 1.33 allan o 10. Diffyg cyfleusterau toiledau cyhoeddus oedd y ffactor allweddol. Roedd problemau hefyd ynghylch glendid a hygyrchedd cyfleusterau, ac oriau agor cyfyngedig, yn enwedig gyda'r nos, a diffyg arwyddion mewn rhai ardaloedd.

**Mae Age Cymru yn galw:**

- am ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu digon o doiledau cyhoeddus hygyrch ledled Cymru
- am fonitro a gwerthuso gweithredu strategaethau toiledau lleol awdurdodau lleol yn gadarn i sicrhau bod toiledau hygyrch digonol yn cael eu darparu mewn cymunedau
- ar Lywodraeth Cymru i fonitro lefelau gwariant cyhoeddus ar gynlluniau toiledau cyhoeddus i sicrhau bod darpariaeth y gwasanaethau pwysig hyn yn sefydlog
- ar y cynllun toiledau cymunedol i gael ei hyrwyddo'n well os bydd yn ffurfio rhan o ddatrysiad cynaliadwy ar y cyd ar gyfer darpariaeth toiledau.

## *Palmentydd*

Gall diffyg palmentydd diogel osod cyfyngiadau difrifol ar ryddid symud a symudedd pobl hŷn. Gall palmentydd sydd mewn cyflwr gwael neu sydd wedi'u rhwystro beryglu diogelwch ac annibyniaeth pobl hŷn a chynyddu'r risg o gwympo.

Rhoddodd dros draean yr ymatebwyr sgôr o dri neu lai i'r palmentydd yn eu cymunedau. Nodwyd pryderon am gyflwr gwael palmentydd, gan gynnwys anwastadrwydd a cherrig llac, a nodwyd y ffaith bod palmentydd bric yn llithrig tu hwnt yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb ac yn y gaeaf.

Yn ogystal, nodwyd pryderon am rwystrau ar balmentydd, yn enwedig ceir wedi parcio, biniau, dodrefn stryd a chloddiau boliog, sy'n gallu cyfyngu mynediad pobl sy'n defnyddio fframiau cerdded, cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd. Ar ben hynny, nodwyd pryderon am lendid palmentydd, yn benodol baw ci ac ysbwriel.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- awdurdodau lleol i sicrhau bod palmentydd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cael eu trwsio'n brydlon
- rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a swyddogion traffig, i wneud mwy o ymdrech i sicrhau bod palmentydd yn rhydd o rwystrau.

## *Diogelwch cymdogaeth*

Gall ofn trosedd arwain at bobl hŷn yn dod yn ynysig ac yn ofni gadael eu cartrefi, yn enwedig ar ôl iddi nosi. Nododd nifer o ymatebwyr nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau, gyda 17.4% o'r ymatebwyr rhoi sgôr o dri neu'n is o ran diogelwch cymdogaeth i'w cymunedau. Nodwyd pryderon ynghylch diffyg presenoldeb yr heddlu mewn cymunedau, ac ofnau am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd. Yn ogystal, nodwyd traffig yn gyrru'n rhy gyflym, diffyg cyfleusterau diogel i gerddwyr groesi ffyrdd a goleuadau stryd annigonol.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- awdurdodau lleol i ddarparu goleuadau da a strydoedd glân, er mwyn rhoi mwy o hyder i bobl hŷn i adael eu cartrefi
- awdurdodau lleol i sicrhau bod strydoedd yn ddiogel ac yn hygyrch, gyda mwy o byrth 20 milltir yr awr a mesurau tawelu traffig mewn ardaloedd preswyl. Yn ogystal, rhaid bod digon o fannau croesi i gerddwyr a'u bod yn rhoi digon o amser i bobl groesi'r ffordd yn ddiogel.

## *Llefydd i gyfarfod*

Gall cynyddu cyfleoedd i bobl hŷn gymryd rhan yn lleol wneud llawer i hybu annibyniaeth, brwydro yn erbyn arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a hybu iechyd a lles. Mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn realiti beunyddiol i lawer o bobl hŷn, ac agwedd hanfodol o greu Cymru sy'n gyfeillgar i oed yw galluogi pobl hŷn i chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas.

Mae cael mynediad at lefydd i gyfarfod a gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig i bobl hŷn. Nodwyd enghreifftiau o arfer da o ran sefydliadau a chyfleusterau cymunedol sy'n cynnal gweithgareddau a chlybiau cymdeithasol. Fodd bynnag, mewn nifer o ardaloedd, mae llefydd i gyfarfod a chymdeithasu mewn perygl cynyddol ac mae nifer wedi cau yn barod. Credwn fod angen dull hyblyg i ddarparu llefydd i gyfarfod mewn cymunedau, trwy adeiladu partneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac aml-ddefnydd arloesol o gyfleusterau presennol y cyngor.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol i alluogi pobl hŷn i hwyluso gweithgareddau cymdeithasol, addysgiadol a chysylltiedig ag iechyd mewn cymunedau
- awdurdodau lleol i ystyried ffyrdd arloesol o gefnogi gweithgareddau o'r fath trwy annog defnydd cyfleusterau'r cyngor.

## Gwybodaeth a chyngor

Mae gwybodaeth a chyngor o ansawdd da yn hanfodol i helpu pobl hŷn i wneud penderfyniadau gwybodus, cynllunio, cael mynediad at wasanaethau a hawliau a chyfrannu at gymdeithas.

Dywedodd ymatebwyr wrthym am y dulliau gwerthfawr o gael mynediad at wybodaeth a chyngor, gan gynnwys cylchlythyrau, fforymau, llyfrgelloedd, lleoliadau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol.

Nododd rhai pobl bryderon o ran gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth, a methu cael mynediad at wybodaeth ar-lein.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r GIG i gydweithio â darparwyr gwasanaethau gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael a datblygu cyfleoedd i ddarparu gwybodaeth a chyngor mewn lleoliadau lle mae pobl hŷn yn treulio'u diwrnodau
- darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn cael ei darparu mewn ystod o fformatau a thrwy ystod o sianeli, gan gynnwys ffynonellau ar-lein a thraddodiadol
- awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau llyfrgell cyhoeddus, gan gynnwys eu rôl hanfodol o ran cynorthwyo pobl hŷn i ddatblygu sgiliau digidol.

## Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol

Pobl hŷn yw prif ddefnyddwyr oedolion y rhan fwyaf o wasanaethau iechyd a gofal, a dylent gael mynediad at wasanaethau sy'n cynnal a hyrwyddo eu hiechyd corfforol, ysbrydol a meddyliol, sy'n trin salwch ac sy'n cefnogi'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig. Dylai pobl hŷn gael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod help ar gael i'r rhai sydd ag anghenion cymorth i fyw'n dda a pharhau i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd.

Y prif faterion a nodwyd gan ymatebwyr o ran gwasanaethau iechyd a chymdeithasol oedd yr anawsterau o ran gwneud apwyntiadau meddygon teulu a gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, nodwyd materion o ran ansawdd rhai gwasanaethau cymdeithasol, a bod angen mwy o gefnogaeth i ofalwyr.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- GIG Cymru i sicrhau bod pob claf yn gallu cael mynediad amserol at feddyg teulu, yn ôl yr angen. Dylai meddygfeydd archwilio ffyrdd o symleiddio eu systemau cadw apwyntiadau lle mae hynny'n bosibl
- meddygfeydd i fod yn hygyrch ac i ofalu am bawb, gan gynnwys y rheiny sydd ag anableddau synhwyrol
- awdurdodau lleol i sicrhau bod unigolion a gofalwyr sydd angen gofal i gael asesiadau cyflym a chywir, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## *Eich llais*

Er mwyn i gymunedau wasanaethu pobl hŷn yn ddigonol, rhaid ystyried eu barn a'u profiadau wrth ddylunio a darparu cyfleusterau a gwasanaethau.

Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i godi llais am eu barn trwy ymgynghori ac ymgysylltu ystyrlon.

Roedd nifer o bobl hŷn o'r farn nad yw eu lleisiau yn cael eu clywed yn lleol, gyda dros draean o ymatebwyr yn rhoi sgôr o dri neu lai mewn ymateb i'r cwestiwn hwn: "Pa mor dda yr ystyrir eich barn ym mhenderfyniadau a chynlluniau cymunedol?" Nodwyd pryderon o ran bod yn or-ddibynnol ar gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau electronig ar gyfer cyfathrebu, oherwydd nad yw llawer o bobl hŷn yn gallu cael mynediad at y dulliau hyn. Wrth i fwy o wybodaeth ac ymgynghoriadau fod ar gael yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar-lein, mae risgiau gwirioneddol o eithrio llawer o bobl hŷn. Amlygodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd fforymau pobl hŷn fel ffordd o roi llais i bobl hŷn.

**Mae Age Cymru yn galw ar:**

- awdurdodau lleol i adeiladu ar arfer gorau fforymau 50+ i gefnogi ac ymgysylltu â phobl hŷn trwy ymgynghoriadau lleol
- darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod ymgynghoriadau ar gael mewn fformatau amrywiol, ac nad yw darparu gwybodaeth ar-lein yn tanseilio darpariaeth gwybodaeth mewn fformatau eraill. Rhaid i wasanaethau ar-lein fod o ansawdd uchel a hawdd eu defnyddio, tra dylai gwasanaethau traddodiadol fod o ansawdd cyfartal ac yn gwbl hygyrch.

# Cymhariaeth o’r canlyniadau ag arolwg Cyfrifiannell Gymunedol Age Cymru yn 2010

Wrth gymharu canlyniadau’r arolwg Cyfrifiannell Gymunedol gyfredol â chanlyniadau arolwg Cyfrifiannell Gymunedol flaenorol Age Cymru yn 2010, mae’n ymddangos nad oes llawer wedi newid; toiledau cyhoeddus, ‘eich llais’, palmentydd ac eisteddleoedd a llefydd i gael gorffwys yw’r pedair elfen sy’n perfformio waethaf mewn cymunedau ledled Cymru o hyd.

**Canlyniadau arolwg Cyfrifiannell Gymunedol Age Cymru yn 2018/2019 a 2010.**

| *Elfen cymuned oed gyfeillgar* | ***Sgôr gyfartalog Cymru (2018/19)*** (allan o 10) | ***Sgôr gyfartalog Cymru (2010)*** (allan o 10) |
|---|---|---|
| **Toiledau cyhoeddus** | **3.30** | **3.32** |
| **Eich llais** | **4.54** | **4.59** |
| **Palmentydd** | **4.60** | **4.89** |
| **Eisteddleoedd i’r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys** | **5.52** | **4.66** |
| **Diogelwch cymdogaeth** | **5.84** | **5.51** |
| **Gwybodaeth a chyngor** | **6.20** | **6.33** |
| **Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol** | **6.53** | **N/A** |
| **Llefydd i gyfarfod** | **6.55** | **6.34** |
| **Trafnidiaeth gyhoeddus** | **6.62** | **6.87** |
| **Gwasanaethau / mwynderau lleol** | **6.88** | **7.09** |

Mae diffyg toiledau cyhoeddus ac eisteddleoedd i’r cyhoedd a mannau i gael gorffwys, a phalmentydd peryglus yn ein cymunedau, a nodwyd yn y ddau arolwg, yn cynrychioli rhwystrau corfforol yn amgylchedd adeiledig ein cymunedau. Eisoes, mae lefelau uchel o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol ymhlith pobl hŷn yng Nghymru a gall amgylchedd adeiledig anhygyrch sy’n atal pobl rhag cymryd rhan ym mywyd y gymuned gyfrannu at hyn.

Gyda chyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu torri, mae llawer o’r gwasanaethau a’r cyfleusterau hanfodol y mae pobl hŷn yn dibynnu arnynt o dan fygythiad. Gall effaith gronnol toriadau i gyfleusterau ac amwynderau hanfodol erydu isadeiledd yr amgylchedd adeiledig yn raddol a chipio’r galon allan o’n cymunedau.

# Casgliad

Mae ymatebwyr i'r Gyfrifiannell Gymunedol wedi nodi cryfderau a gwendidau cymunedau ledled Cymru, gan ddarparu cipolwg o statws presennol cymunedau a pha mor barod yw ardaloedd i ymateb i newidiadau demograffig cyfredol ac yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi llais i bryderon pobl hŷn ac yn pwysleisio bod problemau sylweddol yn dal i fodoli sydd angen sylw ar draws deg elfen y Gyfrifiannell Gymunedol. Mae angen gwelliannau o ran cynllunio cymunedol a darparu gwasanaethau i sicrhau bod pob cymuned yn addas i bobl o bob oed, a galluogi pawb ynddynt i fwynhau iechyd, lles ac ansawdd bywyd da.

Cydnabyddwn yr heriau ariannol sylweddol y mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu. Fodd bynnag, credwn y gall cynnal cyfleusterau i ddarparu amgylchedd adeiledig oed gyfeillgar, a gwarchod cyfleusterau a gwasanaethau hanfodol er mwyn galluogi pobl hŷn i gyfrannu at gymunedau, arwain at arbedion o ran gostwng y galw am, a'r ddibyniaeth ar, gyllidebau gofal iechyd a chymdeithasol, a gallai helpu i leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd ymysg pobl hŷn.

Mae'r Gyfrifiannell Gymunedol yn tynnu sylw at feysydd arfer da, er enghraifft: y dulliau gwerthfawr o ddarparu gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys cylchlythyrau, fforymau, llyfrgelloedd, lleoliadau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol; rôl bwysig grwpiau gwirfoddol a chymunedol o ran hwyluso gweithgareddau cymunedol; a'r gwerth mae rhai pobl hŷn yn ei roi ar fforymau o ran sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Bu datblygiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ymuno â Datganiad Dulyn, gan ddangos ymrwymiad ar lefelau lleol i greu cymunedau sy'n gynhwysol ac yn gefnogol i bawb,[1] ac wedi cynhyrchu cynlluniau Heneiddio'n Dda lleol.[2] Mae strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, sy'n adeiladu ar Gam 3 y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

O fewn pob elfen y Gyfrifiannell Gymunedol, mae nifer o asiantaethau sydd â chyfrifoldeb a dylanwad dros wella dyluniad gwasanaethau mewn cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, darparwyr trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol, partneriaethau diogelwch yr heddlu a'r gymuned, a chynghorau cymunedol.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn annog asiantaethau amrywiol i rannu arfer gorau a dod o hyd i ffyrdd newydd i gefnogi pobl trwy gydweithio er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru'n gallu byw bywydau llawn.

[1] Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed. http://www.ageingwellinwales.com/wl/themes/age-friendly-communities [Mynediad 4/12/2019].

[2] Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Cynlluniau Lleol ar gyfer Heneiddio'n Dda, https://www.ageingwellinwales.com/wl/localplans [Mynediad 23/1/2020].

## Atodiad 1

# *Tabl sgorau cyfartalog pob awdurdod lleol*

Tabl o sgorau cyfartalog awdurdodau lleol ar gyfer pob un o ddeg elfen y Gyfrifiannell Gymunedol. Nodir manylion yr elfennau sy'n perfformio waethaf fel meysydd y mae angen gweithredu arnynt ar unwaith, ynghyd â'r elfennau sydd wedi perfformio orau.

| *Awdurdod lleol* | *Sgôr gyfartalog ar gyfer y 10 elfen* | *Meysydd sydd angen gweithredu arnynt ar unwaith* | *Elfennau sydd wedi perfformio orau* |
|---|---|---|---|
| Abertawe | 60.33 | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eich llais | Gwasanaethau lleol, Trafnidiaeth gyhoeddus, Llefydd i gyfarfod |
| Blaenau Gwent | 57.08 | Palmentydd, Eich llais, Diogelwch cymdogaeth | Trafnidiaeth gyhoeddus, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, Gwasanaethau lleol |
| Bro Morgannwg | 61.64 | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eich llais | Gwasanaethau lleol, Llefydd i gyfarfod, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Caerdydd | 61.37 | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eich llais | Gwasanaethau lleol, Trafnidiaeth gyhoeddus, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Caerffili | 56.16 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Palmentydd | Gwasanaethau lleol, Trafnidiaeth gyhoeddus, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Casnewydd | 61.21 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Palmentydd | Trafnidiaeth gyhoeddus, Gwasanaethau lleol, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Castell-nedd Port Talbot | 50.74 | Eich llais, Toiledau cyhoeddus, Palmentydd | Gwasanaethau lleol, Llefydd i gyfarfod, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Ceredigion | 57.99 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Eisteddleoedd i'r cyhoedd | Diogelwch cymdogaeth, Gwasanaethau lleol / Llefydd i gyfarfod |
| Conwy | 53.81 | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eich llais | Gwasanaethau lleol, Llefydd i gyfarfod, Gwybodaeth a chyngor / Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Gwynedd | 58.41 | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eich llais | Llefydd i gyfarfod, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, Gwasanaethau lleol |
| Merthyr Tudful | 51.66 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Palmentydd | Gwasanaethau lleol, Trafnidiaeth gyhoeddus, Llefydd i gyfarfod |

| Awdurdod lleol | Sgôr gyfartalog ar gyfer y 10 elfen | Meysydd sydd angen gweithredu arnynt ar unwaith | Elfennau sydd wedi perfformio orau |
|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 58.34 | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eich llais | Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, Diogelwch cymdogaeth, Trafnidiaeth gyhoeddus / Gwybodaeth a chyngor |
| Powys | 42.48* | Trafnidiaeth gyhoeddus, Toiledau cyhoeddus, Eich llais | Llefydd i gyfarfod, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, Diogelwch cymdogaeth / Gwybodaeth a chyngor |
| Rhondda Cynon Taf | 53.04 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Palmentydd | Trafnidiaeth gyhoeddus, Gwasanaethau lleol, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Sir Benfro | 56.34* | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eisteddleoedd i'r cyhoedd | Diogelwch cymdogaeth, Llefydd i gyfarfod, Gwybodaeth a chyngor |
| Sir Ddinbych | 59.23* | Eich llais, Palmentydd, Toiledau cyhoeddus | Llefydd i gyfarfod, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, Trafnidiaeth gyhoeddus |
| Sir Fynwy | 60.66 | Palmentydd, Eich llais, Toiledau cyhoeddus | Gwasanaethau lleol, Llefydd i gyfarfod, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Sir Gaerfyrddin | 57.61 | Toiledau cyhoeddus, Palmentydd, Eisteddleoedd i'r cyhoedd | Gwasanaethau lleol, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol / Eich llais |
| Sir y Fflint | 46.62 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Palmentydd | Llefydd i gyfarfod, Gwybodaeth a chyngor, Gwasanaethau lleol |
| Torfaen | 59.45 | Eich llais, Toiledau cyhoeddus, Diogelwch cymdogaeth / Gwybodaeth a chyngor | Gwasanaethau lleol / Trafnidiaeth gyhoeddus, Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol |
| Wrecsam | 55.62 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Palmentydd | Gwasanaethau lleol, Llefydd i gyfarfod, Gwybodaeth a chyngor |
| Ynys Môn | 53.3 | Toiledau cyhoeddus, Eich llais, Palmentydd | Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, Llefydd i gyfarfod, Gwasanaethau lleol |

## Allwedd

* Mae'r sgorau mynegeiedig hyn yn nodi meysydd cyfraddau ymateb isel, sef llai na 15 o ymatebwyr.

**Atodiad 2**

## *Holiadur y Gyfrifiannell Gymunedol*

# *Y Gyfrifiannell Gymunedol*

***Rhowch sgôr allan o ddeg ar gyfer bob ffactor a restrir isod.***
***Un yw'r sgôr waethaf bosibl a deg yw'r gorau***

1. **Gwasanaethau lleol**
   Pa mor hawdd yw cael mynediad a gyfleusterau neu wasanaethau lleol, e.e. siopau, swyddfa'r post, banciau a llyfrgelloedd o fewn pellter rhesymol i'ch cartref? **/10**
2. **Trafnidiaeth Gyhoeddus**
   Pa mor dda yw trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol yn eich ardal? **/10**
3. **Eisteddleoedd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys**
   Pa mor dda yw argaeledd ac ansawdd eisteddleoedd i'r cyhoedd yn eich cymuned, yn arbennig y brif ganolfan, gorsafoedd bws a pharciau? **/10**
4. **Toiledau cyhoeddus**
   Pa mor dda yw'r mynediad at dioledau cyhoeddus yn eich ardal leol? **/10**
5. **Palmentydd**
   Pa mor dda yw cyflwr y palmentydd yn eich cymuned? A ydynt yn rhydd o dyllau a rhwystrau? A ydynt yn galluogi cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd symud yn rhydd? **/10**
6. **Diogelwch cymdogaeth**
   Pa mor ddiogel yw'r strydoedd o fewn eich cymuned (presenoldeb yr heddlu, y golau a lefel y traffig)? **/10**
7. **Llefydd i gyfarfod**
   Pa mor dda yw'r llefydd i gyfarfod, treulio amser, ymarfer y corff a dysgu, megis parc, canolfan hamdden, canolfan gymunedol neu neuadd bentref? **/10**
8. **Gwybodaeth a chyngor**
   Pa mor hawdd yw cael mynediad at wybodaeth a chyngor yn eich cymuned, megis gan y cyngor, llyfrgell neu sefydliad gwirfoddol? **/10**
9. **Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol**
   Pa more dda yw'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn eich ardal chi? **/10**
10. **Eich llais**
    Pa mor dda yr ystyrir eich barn ym mhenderfyniadau a chynlluniau cymunedol? **/10**

A oes gennych chi fwy o sylawdau yr hoffwch eu mynegi?

Age Cymru
Llawr Isaf, Tŷ Mariners
Llys Trident, Heol East Moors
Caerdydd CF24 5TD
Ffôn: 029 2043 1555
**www.agecymru.org.uk**

**Dilynwch ni ar:**

facebook.com/agecymru twitter.com/agecymru

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2020